# Anifeiliaid yn peintio

Mae Sam yn paratoi llythyr ar gyfer cylchgrawn.
Mae angen cywiro'r darn gan fod ynddo nifer o wallau iaith a bylchau.

Y Felin
Ffordd yr Afon
Rhydaber

31 mawrth

Annwyl Olygydd

Dw i newydd weld rhywbeth rhyfedd iawn ar y newyddion – darn am anifeiliaid yn peintio.

Dangosodd y cyflwynydd nifer o luniau a oedd wedi cael eu peintio gan swricatiaid (*meerkats* yn Saesneg) Chwarae teg, roeddwn i'n gallu gweld mai'r anifeiliaid oedd wedi gwneud y lluniau hynny oherwydd roedd hi'n amlwg ei bod nhw wedi bod yn sefyll mewn paent gwahanol liwiau a'u bod wedi bod yn rhedeg o gwmpas y papur.

Fodd bynnag, ar ôl y lluniau hyn, dangosodd y cyflwynnydd lun ardderchog o flodau a llun arall o goed, gan ddweud mai eliffant oedd wedi eu gwneud. Yna, roedd ffilm o eliffant yn peintio mewn sŵ yng Ngwlad Thai. Roedd y cipar wedi gosod brwsh ar flaen ei drwnc a dyna lle roedd yr anifail yn peintio lluniau bendigedig. Eglurodd y cipar eu bod nhw'n gwerthu'r lluniau yn siop y sŵ er mwyn codi arian.

Dw i'n sylweddoli ei bod hi'n Ebrill y gyntaf yfory, felly es i i chwilio am fwy o wybodaeth ar y we, rhag ofn mai jôc oedd hyn i gyd. Yno, gwelais lawer o ddarnau diddorol am anifeiliaid yn peintio - ac roedd lluniau hynod o hardd yno hefyd.

Dw i'n dechrau meddwl rhoi gwersi i'r mochyn gini sydd gan fy mab - neu efallai y byddai Snwcs, ein cath fach, ddu, yn gallu gwneud lluniau da gyda'i phawennau. Felly, chi ddarllenwyr **Y Bont**, cadwch eich llygaid yn agored am arddangosfa gelf "wahanol" iawn yn y llyfrgell y flwyddyn nesaf!

……………………………….

Sam Williams